## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** a gynhaliwyd **Ddydd Llun 21 Gorffennaf 2025** yn rhithwir trwy **Zoom**. Dechreuodd y cyfarfod am **09.53**.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Cunningham | Cyngor Sir y Fflint |
| Ann Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans (cyrhaeddodd am 10:53) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Ian Hodge | Cyngor Sir y Fflint |
| Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts (gadawodd am 11:09) | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gareth Sandilands | Cyngor Sir Ddinbych |
| Dale Selvester (gadawodd am 10:12) | Cyngor Sir y Fflint |
| Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân (PST) |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC) |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Llinos Evans | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Heledd Davies | Gwasanaethau Cyfieithu Atebol |
| Lisa Allington | Gwasanaethau Aelodau |

### 1 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Chrissy Gee | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Thomas Montgomery | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Paul Rogers | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**YN ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|

Cynigiwyd a derbyniwyd yr ymddiheuriadau uchod.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni chafwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION CYFARFOD YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB A GYNHALIWYD AR 28 EBRILL 2025**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2025 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo cofnodion yr Awdurdod Tân ac Achub o 28 Ebrill 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

6.1 Nodwyd bod papur ysgrifenedig wedi'i roi i'r Aelodau er mwyn rhoi gwybod iddynt am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025.

6.2 Cyfeiriodd Aelod at safon uchel y ceisiadau a gafwyd ar gyfer y swydd PSTC, a pha mor braf ydoedd bod cyfran uchel o'r ymgeiswyr yn rhai mewnol.

6.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r wybodaeth a roddwyd yn y papur.**

**7 DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD DIWYLLIANNOL ANNIBYNNOL**

7.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Docx y Diweddariad ar yr Adolygiad Diwylliannol Annibynnol, a oedd yn cyflwyno'r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol drafft i'r Aelodau ei gymeradwyo ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd hyd yma ar daith ddiwylliannol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

7.2 Tynnwyd sylw at rannau allweddol o’r papur a gofynnodd Aelod sut y byddai’r ffaith bod y newidiadau i’r diwylliant yn cael eu hymgorffori yn cael ei gwirio’n annibynnol. Ymatebodd y PST trwy ddweud, er bod hwn yn faes anodd ei fesur, bod gwaith yn digwydd mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaerloyw a oedd wedi datblygu dangosfwrdd a oedd yn olrhain rhai dangosyddion a oedd yn anelu at ddatgelu diwylliant eu sefydliad a'r cynnydd. Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gobeithio datblygu dangosfwrdd tebyg a byddai hwn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o’r Bwrdd Gwella Diwylliannol yn y dyfodol.

7.3 Gofynnwyd ymhellach pa sianeli oedd ar gael i staff roi gwybod am faterion yn ddienw, a chadarnhaodd y PST, er bod Polisi Chwythu'r Chwiban ar waith, bod llinell gymorth gyfrinachol hefyd wedi'i chyflwyno ac y gallai pobl gyflwyno pryderon iddi, yn ddienw os oes angen. Er bod pryderon dienw yn anoddach i'w harchwilio, roedd pob pryder yn cael ei ymchwilio’n llawn.

7.4 Diolchwyd i’r swyddogion am eu gwaith parhaus yn y maes hwn.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo’r Cynllun Gwella Diwylliannol Strategol; a**
**ii) nodi’r camau nesaf ar daith ddiwylliannol y Gwasanaeth.**

## 8 DIWEDDARIAD AR BROSIECT Y GANOLFAN HYFFORDDI

8.1 Cyflwynodd PSTC Evans bapur y Diweddariad ar Brosiect y Ganolfan Hyfforddi, diweddariad cynnydd ar brosiect y ganolfan hyfforddi a oedd yn crynhoi datblygiadau ar draws amserlenni cyfreithiol, cyfathrebu, dylunio, ecoleg a rhaglen.

8.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi’r cynnydd ar brosiect y Ganolfan Hyfforddi ar hyn o bryd.**

## 9 ADOLYGIAD O’R DDARPARIAETH FRYS

9.1 Rhoddodd PSTC Jones yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys. Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i’r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio ac i brofi datrysiadau amgen gyda chyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i’r afael â’r ddarpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

9.2 Nodwyd bod hysbysebion bellach wedi'u gosod i staff drosglwyddo i'r criwiau cnewyllyn, a gofynnodd y Cadeirydd sut ymateb oedd wedi bod. Cadarnhaodd PSTC Jones fod cyswllt wedi bod â diffoddwyr tân llawn-amser (System Dyletswydd Amser Cyflawn) ac ar alwad presennol a allai fod â diddordeb mewn symud, a’r gobaith oedd cynyddu’r garfan wledig lawn-amser i’r nifer llawn fel y gellid rhedeg y ddau gynllun peilot gyda'i gilydd. Er bod y gwaith o gasglu datganiadau o ddiddordeb yn dal i fynd rhagddo, roedd PSTC Jones yn hyderus y byddai'r niferoedd angenrheidiol yn cael eu sicrhau.

9.3 Gofynnodd Aelod am y niferoedd recriwtio o fewn y System Dyletswydd Ar Alwad dros y 12 mis diwethaf, a chadarnhaodd PSTC Jones y byddai'n cael yr wybodaeth hon a'i throsglwyddo i Aelodau y tu allan i'r cyfarfod. Fodd bynnag, dywedodd fod recriwtio a chadw yn broses barhaus gyda thua 50-60 o aelodau staff yn gadael y Gwasanaeth bob blwyddyn, er bod y Gwasanaeth yn recriwtio mwy na hynny yn gyson. Nodwyd bod y gofyniad hyfforddi i sicrhau bod yr aelodau staff newydd hyn yn cyrraedd lefel gymwys o sgiliau yn broses hir.

9.4 Cadarnhaodd y PST fod cynnydd net sylweddol wedi bod yn nifer y diffoddwyr tân ar alwad dros y tair blynedd diwethaf gyda thua 230 yn cael eu cyflogi yn ystod y cyfnod hwnnw.

9.5 Nodwyd y byddai'n rhaid i'r cynlluniau peilot ddigwydd dros gyfnod priodol o amser ac y byddai angen monitro gofalus bob chwarter i asesu gwerth ac effaith pob cynllun peilot dros gyfnod o 12 i 24 mis.

9.6 Roedd un Aelod yn teimlo bod y broses i wella’r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig wedi cymryd yn rhy hir, ac y gallai tanau diweddar yn yr ardaloedd gwledig hynny fod wedi cael ymateb gwell pe bai'r broses hon wedi'i chwblhau'n gynharach. Roedden nhw hefyd yn teimlo y byddai cael tîm sefydlog ar waith, a chanddynt wybodaeth leol, yn dod â chryfder a chysondeb i'r ddarpariaeth mewn ardaloedd gwledig.

9.7 Cadarnhaodd PSTC Jones fod model ymateb 18-pwmp y Gwasanaeth wedi cael ei gynnal drwy gydol proses gyfan yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, a bod y Gwasanaeth mewn sefyllfa gref o ran perthnasoedd undebol, a oedd wedi bod o fudd mawr i broses yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys.

9.8 Mewn perthynas â'r model criwio cnewyllyn, disgwyliwyd y byddai'r un staff yn cael eu dyrannu i'r gorsafoedd criwio cnewyllyn ar gyfer y cynllun peilot ar ei hyd, er mwyn sicrhau bod staff llawn cymhelliant a chanddynt wybodaeth leol ar waith i ddod yn rhan o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

9.9 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**
**ii) nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn sgil y ffaith fod Undeb y Brigadau Tân wedi llofnodi'r Cydgytundeb;**
**iii) nodi ymdrechion parhaus yr holl bartïon i ddatblygu datrysiad a chyflwyno cynllun peilot i ddangos hunangynhaliaeth y lefelau staffio yn y gorsafoedd tân amser cyflawn presennol; a**
**iv) nodi, drwy ddangos yr hunangynhaliaeth hon, bod lle i gyflwyno cynlluniau peilot i ddefnyddio'r cyllidebau ar gyfer y nifer presennol o swyddi i wella'r model darpariaeth frys ar draws rhannau gwledig Gogledd Cymru.**

## 10 DATGANIAD O GYFRIFON DRAFFT 2024-25

10.1 Nododd y Trysorydd fod y cyfrifon hyn wedi bod gerbron y Pwyllgor Archwilio eisoes, ac nad oedd gofyniad statudol i'r Awdurdod lofnodi'r cyfrifon cyn iddynt gael eu harchwilio.

10.2 Cyflwynodd PSTC MacArthur y Datganiad o Gyfrifon heb ei archwilio ar gyfer 2024/25, sy'n cwmpasu'r alldro refeniw a chyfalaf, sefyllfa'r fantolen, a symudiadau ariannol allweddol ar gyfer yr Awdurdod.

10.3 Diolchwyd i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled wrth lunio'r cyfrifon drafft hyn a'u cyflwyno'n brydlon.

10.4 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Cymeradwyo'r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf heb ei harchwilio;**
- **ii) cymeradwyo sefyllfa'r fantolen heb ei harchwilio;**
- **iii) cymeradwyo'r symud i'r cronfeydd wrth gefn ac ohonynt; a**
- **iv) chymeradwyo dirprwyo awdurdod ar gyfer cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon wedi'i archwilio i'r Panel Gweithredol.**

## 11 DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL 2024-2025

11.1 Cyflwynodd PSTC Jones Ddatganiad Llywodraethiant Blynyddol 2024-2025, a oedd yn cyflwyno'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft i'r Aelodau, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Fe'i cyflwynwyd i Archwilio Cymru ar 31 Mai 2025.

11.2 **PENDERFYNWYD:**

- **i) Cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol Drafft**

## 12 ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD, EBRILL 2024 – MAWRTH 2025

12.1 Cyflwynodd y Rheolwr Ardal Plant yr Adroddiad Monitro Perfformiad, Ebrill 2024 – Mawrth 2025 a oedd yn darparu data cymharol yn ymwneud ag 'Ein Pum Egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel' yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sylwadau am weithgarwch, a gweithgarwch arfaethedig sy'n gysylltiedig â'r egwyddorion.

12.2 Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran galw cynyddol, llai a newydd ac yn llywio datblygiad gweithgareddau newydd neu ddiwygiedig i liniaru unrhyw alw a risg sy'n cynyddu ac yn dod i'r amlwg.

12.3 Nododd rhai Aelodau fod cyrsiau Ffenics a'r Rhaglen Cadetiaid yn cael eu rhedeg yn dda iawn ac yn ymddangos yn llwyddiannus ac felly roedden nhw'n teimlo bod y gwaith ieuenctid a wneir gan y Gwasanaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, roedd ganddynt bryder mewn perthynas â chyfathrebu ynghylch atal tanau sychwyr dillad, ac ymatebodd y RhA Plant trwy ddweud bod llawer iawn o waith addysg yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r maes hwn gan y Tîm Atal a Diogelu a bod hyn hefyd yn agwedd allweddol ar yr Archwiliadau Diogel ac Iach.

12.4 Nododd Aelod y cynnydd mewn tanau o 8.5% a holodd ynghylch hyn gan fod y duedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn gostwng. Nodwyd ganddynt hefyd y cynnydd o 12.4% mewn galwadau diangen, gan ofyn pa waith oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â lleihau nifer y Larymau Tân Awtomatig (AFA) mewn anheddau domestig.

12.5 Ymatebodd y RhA Plant trwy ddweud bod gwaith aruthrol wedi'i wneud i nodi pobl agored i niwed mewn cymunedau a bod llawer o waith cymhleth yn cael ei wneud gyda'r unigolion risg uchel hyn a'u teuluoedd i leihau'r risg cyn belled â phosibl, gan gynnwys gosod Carelines. Roedd hyn yn cyfrannu, yn ei dro, at y cynnydd mewn galwadau diangen gan fod y Carelines yn aml yn cael eu gweithredu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn danau, gan arwain at alwad ddiangen.

12.6 Cadarnhaodd PSTC Jones ymhellach fod cynnydd wedi bod mewn gweithgarwch tanau yn genedlaethol ac nad oedd hyn yn broblem yng Ngogledd Cymru yn unig, ond y gellid priodoli'r cynnydd o 8.5% mewn tanau, i raddau helaeth, i gynnydd mewn tanau gwyllt. Dywedodd ymhellach fod gwaith sylweddol wedi bod yn digwydd i leihau'r nifer o larymau tân awtomatig, ond bod pob galwad ddiangen yn cael ei hystyried fel cyfle i ymgysylltu ymhellach â pherchnogion tai. Fodd bynnag, roedd gwaith atal wedi'i dargedu gyda darparwyr a thrigolion yn digwydd i leihau anfon peiriannau allan yn ddiangen ac roedd hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Gwasanaeth.

12.7 Nododd Aelod y dylai'r angen i ganmol proffesiynoldeb a chyflymder ymateb y criwiau tân gael ei nodi.

12.8 Ychwanegodd y Cadeirydd, pan gafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Panel Gweithredol, bod cytundeb wedi bod ar y camau canlynol mewn perthynas ag archwiliadau 'diogel ac iach': 'Gofyn i ddata gael ei gynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol ar faint o archwiliadau diogel ac iach uchel eu blaenoriaeth sy'n cael eu cwblhau o fewn y targed 28 diwrnod.'

12.9 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad Monitro Perfformiad.**

## 13 ADRODDIAD AROLYGIAD PRIF GYNGHORYDD AC AROLYGYDD TÂN AC ACHUB CYMRU

13.1 Cyflwynodd y RhA Plant ddiweddariad yn dilyn cyhoeddi adroddiad arolygiad Prif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru (CFRAIW), 'Arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried effeithiolrwydd ei ymateb i danau mewn anheddau domestig'.

13.2 Gofynnodd un Aelod sut y byddai'r gwaith ychwanegol hwn yn cael ei gyllidebu, a sut mae'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Gwasanaeth. Atebodd y PST trwy ddweud bod y rhain yn fentrau hanfodol y mae angen eu gweithredu, ond bod cydnabyddiaeth hefyd bod llawer iawn o waith yn parhau mewn meysydd eraill fel y cynllun peilot criwio cnewyllyn a phrosiect y Ganolfan Hyfforddi. Cydnabuwyd bod angen gweithredu ar frys, ond byddai angen cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gynghorydd ac Arolygydd i gadarnhau amserlen, er bod gobaith y gellid cyflawni capasiti ychwanegol drwy weithio ar sail Cymru gyfan. Byddai cyllid yn cael ei ddyrannu trwy broses arferol y gyllideb ac roedd rhai darnau o'r offer angenrheidiol eisoes wedi'u sicrhau.

13.3 Nododd y Cadeirydd fod creu cyfleuster canolfan hyfforddi newydd bellach yn bwysicach nag erioed er mwyn cyflawni argymhellion adroddiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd, a'u bod yn manteisio ar bob cyfle i lobïo Llywodraeth Cymru am gyllid ychwanegol ar gyfer y prosiect hwn. Cadarnhaodd PSTC Jones y byddai'n mynd â'r mater hwn i'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol ar gyfer Gweithrediadau i Gymru gyfan yng Nghaerdydd i gytuno ar ddull gweithredu ac amserlen gyffredinol. Roedd hefyd wedi cyflwyno i Bwyllgor Parodrwydd Gweithredol, Gwydnwch ac Ymateb Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân ac roedd gan y Cyngor ddiddordeb mewn gweld beth fyddai dull Cymru gan fod y newidiadau a argymhellir gan y Prif Gynghorydd ac Arolygydd yn cael eu hadlewyrchu yn y ddogfennaeth Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol (NOG) ac felly byddai'n ofynnol i Loegr wneud newidiadau tebyg i dechnegau diffodd tân yn Lloegr.

13.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr adroddiad; a**
**ii) Nodi bod y cynllun gweithredu wedi'i roi ar waith i ystyried argymhellion arolygiad y Prif Gynghorydd ac Arolygydd.**

## 14 DATGANIAD POLISI DISGRESIYNOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

14.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur Ddatganiad Polisi Disgresiynol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am yr angen i Reolwr y Cynllun, yr Awdurdod, gynhyrchu Datganiad Polisi Disgresiynol Pensiynau'r Diffoddwyr Tân.

14.2 Nodwyd hefyd bod angen cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân, gan gynnwys y cynnig y byddai penderfyniadau yn cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i swyddogion y Gwasanaeth ar ran rheolwr y cynllun.

14.3 Nododd y Trysorydd y gwaith enfawr a wnaed, gan gynnwys gan Kim Jeal, yr Ymgynghorydd Pensiynau Technegol a rennir gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC), a chafwyd sicrwydd bod yr argymhellion yn gyson â'r rhai a oedd yn cael eu cyflwyno ganddynt. Llongyfarchodd y swyddogion am lunio adroddiad mor gynhwysfawr ac argymhellodd y dylid cymeradwyo'r datganiad.

14.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo'r penderfyniadau o fewn Datganiad Polisi Disgresiynol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân gan gynnwys, lle bo'n briodol, dirprwyo i swyddogion y Gwasanaeth.**

**15 BWRDD PENSIWN LLEOL CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2024/25**

15.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd a Chadeirydd y Bwrdd Pensiwn Lleol (y Bwrdd) Adroddiad Blynyddol y Bwrdd i'r Aelodau a oedd yn manylu ar y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25. Tynnwyd sylw at feysydd pwysicaf yr Adroddiad Blynyddol.

15.2 Cadarnhaodd PSTC MacArthur fod mewnbwn cynrychiolwyr y cyflogwr a'r gweithwyr yn amhrisiadwy, nid yn unig i weithrediadau dyddiol y cynllun ond hefyd er mwyn gwylio'r gorwel. Roedd yr heriau cyfreithiol wedi rhoi straen anhygoel ar adran fach, ond roedd y cynnydd yn gadarnhaol.

15.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2024/25 y Bwrdd Pensiwn Lleol.**

**16 CADARNHAU PENODI PRIF SWYDDOGION**

16.1 Cadarnhaodd y Clerc fod argymhellion yn cael eu gwneud i'r Awdurdod llawn ar gyfer penodi Anthony Jones a Justin Evans, a bod yr eitem wedi'i rhoi yn olaf ar yr agenda rhag ofn bod angen sesiwn gaeedig.

16.2 Ychwanegodd y PST fod y broses benodi wedi bod yn hynod o heriol ond yn llwyddiannus, a rhoddwyd diolch i'r Aelodau hynny a ffurfiodd y panel cyfweld. Roedd wedi bod yn gam olaf proses heriol iawn i ymgeiswyr mewnol ac allanol. Roedd ymgynghorydd annibynnol wedi creu'r rhestr hir o ymgeiswyr a gafodd eu hasesu wedyn, a datblygwyd rhestr fer ar sail yr asesiadau hyn. Yna cafodd y tri ymgeisydd hynny eu hasesu ymhellach am eu gallu rheoli, eu triniaeth o sefyllfa yn ymwneud â'r cyfryngau, a'u sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chasglu gwybodaeth. Yn ystod y cyfweliad ei hun, fe wnaeth yr holl ymgeiswyr gyflwyniadau a oedd yn ysgogi rhywun i feddwl, a thrafodwyd sawl mater cyfoes sy'n berthnasol i uwch arweinwyr yn y sector.

16.3 Dywedodd y Cadeirydd fod chwe Aelod o'r Awdurdod ar y panel, un o bob awdurdod lleol, ac roedd pawb yn cytuno bod y tri ymgeisydd o ansawdd uchel. Canfyddiadau unfrydol y panel oedd y dylid penodi Anthony Jones a Justin Evans yn Brif Swyddogion Tân Cynorthwyol parhaol ar gyfer y Gwasanaeth. Cafodd yr argymhelliad hwn ei gynnig a'i eilio'n unfrydol a llongyfarchwyd y ddau a benodwyd.

16.4 Nododd Aelod eu siom, er ei fod wedi cael ei ddatgan yn glir mai dim ond aelodau o'r Panel Gweithredol y gellid eu cynnwys yn y broses benodi, bod y gwahoddiad cychwynnol wedi mynd allan i holl Aelodau'r Awdurdod. Roedd y cynnig hwn wedi'i newid wedyn, ond fe'i cynigiwyd eto ar fyr rybudd i aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Ymatebodd y Cadeirydd trwy ddweud, gan mai dim ond un aelod benywaidd o'r Panel Gweithredol oedd yn methu cymryd rhan yn y broses oherwydd gwyliau blynyddol, ei fod wedi'i gynnig i aelodau benywaidd o'r Pwyllgor Archwilio er mwyn cynnal cydbwysedd rhywedd.

16.5 Cadarnhaodd y Clerc fod cydbwysedd rhywedd wedi bod yn ystyriaeth a bod ymgais wedi bod i wneud y trefniadau o fewn ffiniau'r Panel Gweithredol; fodd bynnag, roedd y cydbwysedd rhywedd wedi'i golli yn y pen draw oherwydd problemau argaeledd.

16.6 Diolchodd PSTC Jones a PSTC Evans ill dau i'r Aelodau a dweud eu bod yn hynod falch o gael eu penodi'n barhaol i'r swydd.

**16.7 PENDERFYNWYD:**

**i) Cadarnhau penodi Anthony Jones a Justin Evans i swydd barhaol Prif Swyddog Tân Cynorthwyol.**

## 17 MATERION BRYS

16.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w hystyried.

Diolchwyd i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu cyfraniad.

**Daeth y cyfarfod i ben: 11:35**